# Dogfennau Ategol - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:
**Hybrid - Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd, a fideogynadledda drwy Zoom**
Dyddiad: Dydd Llun, 4 Tachwedd 2024
Amser: 11.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
**P Gareth Williams**
Clerc y Pwyllgor
0300 200 6565
SeneddDCC@senedd.cymru

## Hybrid - Pecyn Atodol Rhif 1

Noder bod y dogfennau a ganlyn yn ychwanegol i'r dogfennau a gyhoeddwyd yn y prif becyn Agenda ac Adroddiadau ar gyfer y cyfarfod hwn

---

**2 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg: Sesiwn dystiolaeth gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio**

(Tudalennau 1 - 11)

Rebecca Evans AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio
Claire McDonald, Dirprwy Gyfarwyddwr Polisi Economaidd, Llywodraeth Cymru
Jennifer Pride, Pennaeth Cyflenwi Ynni, Llywodraeth Cymru
Scott Tyler, Pennaeth Rhaglen Ddeddfwriaethol y DU, Llywodraeth Cymru

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-31-24 - Papur 1 - Papur Briffio
LJC(6)-31-24 - Papur 2 - Nodyn Cyngor Cyfreithiol ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg [Saesneg yn unig]

**7 Sesiwn dystiolaeth gyda'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni ar y Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru)**

(13.30 - 14.30) (Tudalennau 12 - 47)

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Y Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymu) (Cymru), fel y'i cyflwynwyd

Memorandwm Esboniadol

Julie James AS, y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni

Dylan Hughes, Y Prif Gwnsler Deddfwriaethol, Llywodraeth Cymru

Claire Fife, Cynghorydd Polisi i'r Cwnsler Cyffredinol a Phennaeth y Swyddfa Codau Deddfwriaethol, Llywodraeth Cymru

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-31-24 – Papur 4 – Papur Briffio

LJC(6)-31-24 – Papur 5 – Llythyr at y Pwyllgor Busnes, 3 Hydref 2024

## 8 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

(14.35 – 14.40)

**Dogfennau atodol:**

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol**

**8.2 SL(6)540 – Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Rhyddhad ar gyfer Safleoedd Treth Arbennig) (Cymru) 2024**

(Tudalen 48)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-31-24 – Papur 8 – Adroddiad drafft

LJC(6)-31-24 – Papur 9 – Datganiad Ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 22 Hydref 2024

LJC(6)-31-24 – Papur 30 – Ymateb Llywodraeth Cymru

## 10 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

(14.45 – 14.50)

**Dogfennau atodol:**

**10.4 Gohebiaeth gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Diwygio) 2024**

(Tudalennau 49 - 50)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-31-24 - Papur 31 - Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, 31 Hydref 2024

## 11 Papurau i'w nodi

(14.50 - 14.55)

**Dogfennau atodol:**

**11.6 Datganiad Ysgrifenedig gan y Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru: Gwelliant gan Lywodraeth y DU i'r Bil Gwasanaethau Rheilffordd i Deithwyr (Perchnogaeth Gyhoeddus)**

(Tudalen 51)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-31-24 - Papur 32 - Datganiad Ysgrifenedig gan y Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, 1 Tachwedd 2024

## 13 Adroddiad blynyddol 2023/24: Adroddiad drafft

(15.15 - 15.45) (Tudalennau 52 - 106)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-31-24 - Papur 29 - Adroddiad drafft (Saesneg yn unig)

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 8.2

**Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Rhyddhad ar gyfer Safleoedd Treth Arbennig) (Cymru) 2024**

**Pwynt Craffu ar Rinweddau:**

**1. Esbonio'r rhesymeg dros osod y Rheoliadau hyn gerbron y Senedd cyn i'r Awdurdod gwblhau ei ystyriaeth o'r cynllun arfaethedig.**

**Ymateb:**
Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu cynllun rheoli cymorthdaliadau ar y cyd â Llywodraeth y DU i gwmpasu'r holl ryddhadau, cymhellion a chyllid datganoledig ac a gadwyd yn ôl sydd ar gael mewn perthynas â safleoedd treth arbennig. Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU am sicrhau bod dod i rym y rhyddhad arfaethedig ar gyfer safleoedd treth arbennig TTT yn cyd-daro â dod i rym dynodiad Llywodraeth y DU o'r safle treth arbennig Porthladd Rhydd Celtaidd ac argaeledd y cymhellion treth a gadwyd yn ôl. Bydd hyn yn golygu y gellir hawlio'r rhyddhad safle treth arbennig TTT yn syth o'r dyddiad y dynodir y safle treth arbennig. Gosododd Llywodraeth y DU reoliadau gerbron Senedd San Steffan ar 17 Hydref 2024 i ddynodi'r safle treth arbennig Porthladd Rhydd Celtaidd mewn cysylltiad â rhyddhadau a gadwyd yn ôl. Disgwylir i'r dynodiad a'r rheoliadau rhyddhad TTT ddod i rym ar 26 Tachwedd 2024, yn ddarostyngedig i'r gweithdrefnau perthnasol.
Er mwyn sicrhau bod cyd-daro ar 26 Tachwedd 2024, bu'n ofynnol i'r Rheoliadau hyn gael eu gosod gerbron y Senedd cyn i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd orffen ystyried y cynllun rheoli cymorthdaliadau arfaethedig. Er y gallai hyn beri risg o honiadau o achub y blaen, ni fydd modd darparu unrhyw ryddhad TTT i'r safle treth arbennig Porthladd Rhydd Celtaidd cyn 26 Tachwedd 2024, a fydd ar ôl cyhoeddi adroddiad yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ar y cynllun rheoli cymorthdaliadau, a chofrestru'r cynllun hwnnw, gan felly liniaru unrhyw risg.

**2. Cyn dadl y Senedd ar y Rheoliadau, gadarnhau a yw'r Awdurdod wedi codi unrhyw bryderon mewn perthynas â'r rhyddhad newydd rhag y dreth trafodiadau tir ac, os felly, ymateb y Llywodraeth.**

**Ymateb:**
Cyhoeddodd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ei adroddiad ar Gynllun Cymhorthdal Porthladdoedd Rhydd Cymru ar 1 Tachwedd 2024: [Referral of the proposed Welsh Freeports Subsidy Scheme by the Welsh Government (WG) and the Ministry of Housing, Communities and Local Government (MHCLG) - GOV.UK]

Mae gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU 5 niwrnod i roi sylw dyledus i'r hyn sydd ynddo. Ar ôl y cyfnod hwn, ond cyn dadl y Senedd ar y Rheoliadau, byddwn yn ysgrifennu at y Pwyllgor i roi gwybod a yw'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd wedi codi unrhyw bryderon mewn perthynas â'r rhyddhad TTT ac, os felly, ddarparu ymateb y Llywodraeth. Cafodd Cynllun Cymhorthdal Porthladdoedd Rhydd Cymru ei rag-gyfeirio i Uned Cyngor Cymorthdaliadau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, a gynghorodd a oedd angen gwelliannau cyn ei gyflwyno'n ffurfiol.

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: HID/CC/MA/5295/24

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
SeneddDCC@senedd.cymru

31 Hydref 2024

Annwyl Mike,

Rwy'n ysgrifennu i hysbysu'r Pwyllgor o'm bwriad i roi cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud a gosod Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Diwygio) 2024 ('Rheoliadau 2024').

Rydym wedi cael llythyr gan yr Arglwydd Douglas-Miller, y Gweinidog dros Fioddiogelwch, Iechyd a Lles Anifeiliaid, yn gofyn am gydsyniad i'r Rheoliadau hyn. Mae'r Rheoliadau yn gorgyffwrdd â pholisïau datganoledig a byddant yn gymwys i Gymru. Bydd y Rheoliadau yn rhychwantu Cymru, Lloegr a'r Alban ac mae cais tebyg am gydsyniad wedi'i anfon at Weinidogion yr Alban.

Bydd y Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud drwy arfer y pwerau a roddir o dan:

- adrannau 14(1), (2), (3), (4)(a), (b), (e) a (7), 15(1) a 20(1) o Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023.

Mae'r pwerau a roddir gan Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 yn cael eu defnyddio i ddiwygio pwerau sy'n bodoli eisoes yn Rheoliad (UE) 2017/625 ("y Rheoliad Rheolaethau Swyddogol" neu "OCR") fel y gellir gwneud offerynnau pellach yn ddiweddarach. Nid yw'r rhan fwyaf o'r diwygiadau a wneir gan Reoliadau 2024 yn cael effaith polisi hyd nes bod y pwerau diwygiedig yn cael eu harfer yn ddiweddarach. Bydd y polisïau canlynol, fodd bynnag, yn cael effaith o'r dyddiad dod i rym:

- Caniatáu i Arolygwyr Iechyd Planhigion gynnal profion diagnostig yn y Safle Rheolaethau’r Ffin yn hytrach na phrofi mewn labordai swyddogol.
- Darparu y gall pwerau gorfodi ganiatáu adennill cost dyledion a chasgliadau pan nad yw ffioedd wedi'u talu

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae Rheoliadau 2024 yn darparu'r sail ddeddfwriaethol ar gyfer cyflwyno agweddau pellach ar Fodel Gweithredu Targed y Ffin (BTOM) gan gynnwys y cynlluniau Masnachwr Dibynadwy ar gyfer cynhyrchion anifeiliaid a Statws Gweithredwr Awdurdodedig ("AOS") ar gyfer planhigion a chynhyrchion planhigion.

Mae Rheoliadau 2024 yn diwygio ac yn disodli darpariaethau yn y Rheoliad Rheolaethau Swyddogol a deddfwriaeth berthnasol arall i ddarparu sail ddeddfwriaethol hirdymor i'r BTOM y tu hwnt i'r ddibyniaeth ar y Cyfnod Graddoli Trosiannol (TSP) ar gyfer nwyddau perthnasol, ac i sicrhau y gellir diweddaru'r BTOM mewn ymateb i risg fel y bo’n ofynnol trwy ganiatáu i newidiadau gael eu gwneud yn weinyddol.

Nid yw'r Rheoliadau yn ymrwymo Gweinidogion Cymru i fabwysiadu unrhyw safbwynt o eiddo Llywodraeth y DU ar fioddiogelwch yn y dyfodol. Nid yw'r Rheoliadau yn lleihau nac yn tanseilio pwerau Gweinidogion Cymru mewn unrhyw ffordd.

Er mai egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai'r gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael ei gwneud a'i diwygio yng Nghymru, y tro hwn, ystyrir ei bod yn briodol i'r offeryn hwn fod yn gymwys i Gymru, er mwyn sicrhau cyfundrefn iechydol a ffytoiechydol gydlynol a chyson ar gyfer nwyddau sy'n cael eu mewnforio i Brydain Fawr; i ddiogelu bioddiogelwch a sicrhau bod safonau diogelwch bwyd yn cael eu cynnal yng Nghymru. Rwyf o'r farn nad deddfu i Gymru ar wahân fyddai'r ffordd fwyaf priodol o roi effaith i'r newidiadau sydd eu hangen, ac na fyddai'n ddefnydd darbodus o adnoddau Llywodraeth Cymru chwaith, o ystyried blaenoriaethau pwysig eraill.

Rwyf wedi ysgrifennu llythyr tebyg at Paul Davies AS, Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn gywir,



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd
a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Gwelliant gan Lywodraeth y DU i'r Bil Gwasanaethau Rheilffordd i Deithwyr (Perchnogaeth Gyhoeddus)** |
| **DYDDIAD** | **01 Tachwedd 2024** |
| **GAN** | **Ken Skates AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru** |

Mae Llywodraeth y DU wedi gosod gwelliant i'r Bil Gwasanaethau Rheilffordd i Deithwyr (Perchnogaeth Gyhoeddus) (y Bil). Dyma'r gwelliant arfaethedig:

> *After Clause 2, insert the following new Clause*
>
> *“2A Application of public sector equality duty*
>
> *In Part 1 of Schedule 19 to the Equality Act 2010 (authorities subject to public sector equality duty), at the appropriate place under the heading “Transport”, insert—*
>
> *“A public sector company providing services for the carriage of passengers by railway under a public service contract awarded under section 30 of the Railways Act 1993 (public sector provision of services).””*

Byddai'r gwelliant yn ychwanegu cwmnïau sector cyhoeddus a ddiffinnir yn y Bil at y rhestr o gyrff y nodir yn Atodlen 19 i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 eu bod yn rhai sy'n ddarostyngedig i ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn na fyddai'n cael unrhyw effaith gyfreithiol nac ymarferol sylweddol gan fod unrhyw un neu rai o is-gwmnïau Gweinidogion Cymru yn awdurdod cyhoeddus eisoes at ddibenion dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus, o dan adran 149(1) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Rwy'n sylweddoli bod y gwelliant hwn yn dod ar fyr rybudd, cyn y ddadl ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol y bwriedir ei chynnal ar 5 Tachwedd. Mae Llywodraeth y DU yn gweithio'n gyflym ar y ddeddfwriaeth hon, a chafodd y Datganiad Ysgrifenedig hwn ei ryddhau cyn gynted ag yr oedd modd.

# Eitem 13

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon